**Awdurdod Parc Cenedlaethol**
**(Cyfarfod Arbennig)**

**06 Hydref 2023**

**Yn Bresennol**
Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Cynghorydd R Jordan, Dr RM Plummer a'r Cynghorydd S Skyrme-Blackhall.

**Hefyd yn bresennol:**
Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Joy Arkley (Rheolwr Adnoddau Dynol), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) a Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd).

[Cyfarfod o bell 10.00yb – 10:20a.m.]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd S Alderman, y Cynghorydd S Hancock, Mrs S Hoss, y Cynghorydd M James, Mr GA Jones, y Cynghorydd P Morgan, y Cynghorydd R Owens, y Cynghorydd B Price, y Cynghorydd M Wiggins, y Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd C Williams.

**2. Datgan Buddiannau**
Datganodd Mrs J James bod ganddi fuddiant personol ym mhenodiad y Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) a Chodi Arian.

**3. Eithrio'r Cyhoedd**
**PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod yn unol â pharagraff 8.8 o'r Rheolau Sefydlog, sy'n ymwneud â Chynigion sy'n effeithio ar Swyddogion, gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o adran 100A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

**4. Penodi Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) a Chodi Arian**
Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Adnoddau Dynol drosolwg byr i'r Aelodau o'r broses recriwtio ac o'r ymgeisydd y bwriedir ei benodi. Atgoffodd y Prif Weithredwr hwy bod y Pwyllgor Adnoddau Dynol wedi cyfweld ar gyfer y swydd ar y 4ydd o Hydref 2023 ac wedi argymell penodi Catrin Evans. Roedd yr Aelodau yn cytuno â'r argymhelliad a roddwyd gerbron a chafwyd trafodaeth ynglŷn ag addasrwydd yr ymgeisydd.

Eglurodd y Prif Weithredwr pe byddai Ms Evans yn cael ei phenodi, byddai angen iddi adnewyddu ei haelodaeth o'r corff proffesiynol

perthnasol er mwyn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer Swyddog Adran 151, ac ychwanegodd y byddai'r Swyddog Adran 151 presennol yn parhau yn ei rôl tan y bydd y swyddog newydd mewn sefyllfa i gymryd y swyddogaeth hon.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd R Jordan, **PENDERFYNWYD** penodi Catrin Evans yn Bennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) a Chodi Arian.